

POB PLENTYN EVERY CHILD


Croeso i'r canllaw i weithwyr iechyd proffesiynol ar ddefnyddio adnodd newydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n rhoi gwybodaeth iechyd i rieni, sef '**Pob Plentyn – Newydd-anedig hyd at 2 oed**', a'r fersiwn Saesneg gyfatebol, '**Every Child – Newborn to age 2**'.

Mae'r canllaw hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer cydweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar i'w cyflwyno i'r llyfrynnau, i ddarparu gwybodaeth am eu datblygiad, yn ogystal â rhoi arweiniad ymarferol ar sut i'w defnyddio i gefnogi sgysiau gyda rhieni newydd.

Am y llyfrynnau

Mae'r llyfrynnau hyn yn disodli *Naw, Mis a Mwy a Bump, Baby and Beyond*. Maent wedi'u datblygu yn dilyn adborth gan rieni yn nodi eu bod eisiau gwybodaeth a oedd yn adlewyrchu eu taith magu plant yn well, oedd yn fwy cefnogol o ran naws ac wedi'i darparu ar yr adeg fwyaf perthnasol.

Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i'w rhoi i rieni tro cyntaf adeg yr enedigaeth neu ymweliad â'r babi newydd i'w cefnogi yn ystod y cyfnod pontio tuag at fod yn rhiant. Gallwch gyfeirio rhieni sydd wedi cael plant o'r blaen at y fersiynau digidol sydd wedi'u lanlwytho i'r tudalennau [Pob Plentyn - Adnoddau Gwybodaeth i Rieni](#) ac [Every Child Plentyn - Parent Information](#), a gellir eu cyrchu hefyd trwy ddefnyddio'r codau QR isod.



Fodd bynnag, os ydych o'r farn broffesiynol bod rheswm clinigol penodol dros gynnig copi papur i'r teuluoedd hyn, mae croeso i chi wneud hyn.

Mae'r llyfrynnau newydd wedi'u hysgrifennu gydag arweiniad gan weithwyr iechyd proffesiynol a mewnbwn gan rieni sydd eisoes wedi bod ar y daith magu plant. Mae hyn yn golygu bod '**Pob Plentyn – Newydd-anedig hyd at 2 oed**' ac '**Every Child – Newborn to age 2**' yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol a phwysig sydd ei hangen ar rieni yng Nghymru i'w helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant.

Er mwyn sicrhau bod rhieni'n eu gweld mor ddiddorol â phosibl, mae'r llyfrynnau hyn wedi'u hysgrifennu mewn iaith bob dydd, a lle defnyddir termau clinigol, darperir esboniadau mewn 'termau anarbenigol' i wneud yr wybodaeth yn hawdd ei chyrchu a'i deall. Mae cynnwys y llyfryn yn cyfeirio at y darllynydd fel 'ti' i wneud iddo deimlo fel pe bai rhywun yn siarad ag ef/hi yn uniongyrchol, ac i wneud yr adnoddau'n fwy cynhwysol.

Nodyn Atgoffa

Er mwyn eich helpu i ymglyfarwyddo â strwythur a chynllun **'Pob Plentyn – Newydd-anedig hyd at 2 oed'** ac **'Every Child - Newborn to age 2'**, rydym wedi llunio nodyn atgoffa i'ch helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol yn y llyfryn ar yr adeg sydd fwyaf perthnasol i rieni. Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar dudalen we [Adnoddau Gwybodaeth Proffesiynol](#). Fe'i datblygwyd gyda mewnbwn gan ymwelwyr iechyd ac fe'i cynlluniwyd i fod yn hawdd ei weld ar-lein neu ei argraffu a'i gadw gyda chi.

Archebu'r adnoddau newydd

Ni fydd 'Pob Plentyn - Newydd-anedig hyd at 2 oed' nac 'Every Child - Newborn to age 2' yn cael eu hanfon yn awtomatig i unedau ymwelwyr iechyd. Bydd angen i dimau ymwelwyr iechyd archebu copïau o'r adnodd newydd drwy'r dudalen Adnoddau Gwybodaeth Iechyd ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/adnoddau-gwybodaeth-iechyd/ i ddiwallu anghenion gwybodaeth rhieni eu system leol.

Bydd y broses hon yn galluogi ymwelwyr iechyd a chydweithwyr yn y gwasanaethau mamolaeth i reoli nifer y llyfrynau sydd ganddynt yn eu hunedau, a bydd hefyd yn helpu'r tîm Pob Plentyn i deall a monitro'r defnydd o'r adnodd yn y system.

Mae **'Pob Plentyn - Newydd-anedig hyd at 2 oed'** yn dod mewn blychau o 20 ac mae **'Every Child - Newborn to age 2'** yn dod mewn blychau o 34 a gall archebion gymryd hyd at 10 diwrnod gwaith i'ch cyrraedd. Nid oes unrhyw gyngor safonol na gofyniad sylfaenol ar amllder archebu. Gall cydweithwyr gwasanaethau ymwelwyr iechyd ddatblygu cynlluniau lleol ar gyfer archebu a dosbarthu yn unol ag angen lleol a chapasiti storio. Fodd bynnag, byddem yn annog cydweithwyr gwasanaethau ymwelwyr iechyd i sicrhau eu bod yn ail-archebu mewn da bryd ac yn anelu at gael digon o gyflenwad mewn stoc ar unrhyw adeg i bara am fis o leiaf, er mwyn cadw digon o stoc wrth gefn.

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn

Byddem wrth ein bodd yn clywed gan ein cydweithwyr ymwelwyr iechyd am yr hyn y maent hwy, neu'r rhieni yn eu gofal, yn ei feddwl am y llyfryn.

Os oes gennych unrhyw adborth ar y llyfryn, ewch i everychild@wales.nhs.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau/cwynion, gallwch eu hanfon trwy'r dudalen adborth hefyd.